

CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWDYD AR 26 MAWRTH YN NHŶ HASTINGS, CAERDYDD.

Yn bresennol: Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFfDLC yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Matthew Farrell (Swyddog Arolygon), Cher Cooke (Swyddog Arolygon)

Amser Dechrau: 08:30

Amser Gorffen: 13:45

Ymddiheuriadau: Cath Thomas (Cynorthwydd Arolygon)

Gwesteion: Ross Evans

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Bydd Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, yn ymweld â'r Comisiwn ar 13 Mai. Bydd briff yn cael ei ddarparu ar yr hyn y mae rôl y Comisiwn yn ei olygu.

2.2. Mae'r Bil Llywodraeth Leol wedi'i ohirio hyd nes y clywir yn wahanol.

2.3. Mae Bil Comisiwn y Cynulliad yn debygol o gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr.

2.4. Bydd Sinead O'Toole yn gadael ei swydd yn adran noddwyr y Comisiwn o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd y Prif Weithredwr yn anfon neges e-bost at Sinead yn diolch iddi am ei chymorth a'i chefnogaeth.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2019

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2019, yn dilyn nifer o fân ddiwygiadau, fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

4. Materion yn Codi

- 4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 19 Chwefror 2019 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.
- 4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a hefyd nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddarau ar y materion canlynol:
 - **(Mater 3)** Polisiâu Adnoddau Dynol
 - **(Mater 5)** Adolygiad JEGS (Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi)
 - **(Mater 6)** Argymhellion BuMP (Buddsoddwyr mewn Pobl).

5. Arolwg Etholiadol Abertawe – Opsiynau Drafft

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 26 Mawrth 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 5.2. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Gŵyr, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Llandeilo Ferwallt, Fairwood, Gŵyr, Penclawdd, Pennard

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw cyfran sylweddol o'r trefniadau presennol
- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefel bresennol o amrywiad etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â nifer o gynrychiolaethau.

- 5.3. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 2 ar gyfer Ardal y Mwmbwls, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Mayals, Newtown, Ystumllwynarth, West Cross

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Nid yw'r un o'r wardiau'n parhau i fod yn fwy na $\pm 25\%$ o'r cyfartaledd sirol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau.

- 5.4. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 2 ar gyfer Ardal Dynfant a Chilâ, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Dynfant, Gogledd Cilâ, De Cilâ

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau
- Mae'n cadw un o'r trefniadau etholiadol presennol.

- 5.5. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Sgeti, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Sgeti

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n cadw'r trefniant presennol.

- 5.6. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Tregŵyr a'r Cocyd, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Y Cocyd, Tregŵyr

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau
- Mae'n cadw un o'r wardiau etholiadol presennol.

- 5.7. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Pontybrenin, Casllwchwr Isaf a Chasllwchwr Uchaf, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Pontybrenin, Casllwchwr Isaf, Casllwchwr Uchaf

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau.

- 5.8. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Gorseinon, Penllergaer a Phenyrheol, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Gorseinon, Penllergaer a Phenyrheol

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau.

- 5.9. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Llangyfelach, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Llangyfelach

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol.
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau.

- 5.10. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 3 ar gyfer Ardal Pontarddulais, Mawr a Chlydach, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Clydach, Mawr, Pontarddulais

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol.
- Mae'n cadw un o'r wardiau etholiadol presennol.

- 5.11. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 2 ar gyfer Ardal Llansamlet, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Llansamlet

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol.
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau.

- 5.12. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Treforys, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Treforys

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau
- Mae'n cadw'r trefniadau etholiadol presennol.

- 5.13. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal St. Thomas, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

St. Thomas

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau
- Mae'n cadw'r trefniadau etholiadol presennol.

- 5.14. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Bôn-y-maen, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Bôn-y-maen

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau
- Mae'n cadw'r trefniadau etholiadol presennol.

- 5.15. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Glandŵr, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Glandŵr

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau
- Mae'n cadw'r trefniadau etholiadol presennol.

5.16. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal y Castell, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Y Castell

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n cadw'r trefniadau etholiadol presennol.

5.17. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Penderi, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Penderi

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau
- Mae'n cadw'r trefniadau etholiadol presennol.

5.18. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Mynydd-bach, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Mynydd-bach

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau
- Mae'n cadw'r trefniadau etholiadol presennol.

5.19. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Cwmbria, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Cwmbria

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n cadw'r trefniadau etholiadol presennol.

- 5.20. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Townhill, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Townhill

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n cadw'r trefniadau etholiadol presennol.

- 5.21. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Uplands, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Uplands

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n cadw'r trefniadau etholiadol presennol.

- 5.22. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a argymhellir a chytunodd arnynt.

6. Arolwg Etholiadol Sir Benfro – Opsiynau Terfynol

- 6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Mawrth gan y Swyddog Arolygon.
- 6.2. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer Ardal Abergwaun, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Gogledd Ddwyrain Abergwaun, Gogledd Orllewin Abergwaun ac Wdig

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n mynd i'r afael â'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd ar gyfer yr ardal

- Mae'n cadw'r trefniadau presennol
- Mae'n cadw wardiau un aelod a ddymunir.

- 6.3. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Maenordeifi, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Cilgerran, Clydau, Crymych a Maenclochog

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu gwelliant sylweddol i lefelau'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cadw wardiau un aelod a ddymunir

- 6.4. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Camros/Llanisan-yn-Rhos, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Camros, Johnston, Solfach, Llanisan-yn-Rhos a The Havens

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Mae'n rhoi cysylltiadau cyfathrebu da i'r wardiau
- Mae'n cadw wardiau un aelod a ddymunir.

- 6.5. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 5 ar gyfer Ardal Aberdaugleddau, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Aberdaugleddau: Canol, Aberdaugleddau: Dwyrain, Aberdaugleddau: Hakin, Aberdaugleddau: Hubberston, Aberdaugleddau: Gogledd ac Aberdaugleddau: Gorllewin

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd
- Mae'n cadw wardiau un aelod a ddymunir.

- 6.6. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Penfro, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Penfro: Monkton, Penfro: Gogledd St. Mary, Penfro: De St. Mary a Phenfro: Sant Mihangel

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Fe'i cefnogir gan Gyngor Sir Penfro.

6.7. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Caeriw ac East Williamston, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Caeriw ac East Williamston

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Mae'n cadw wardiau un aelod a ddymunir

6.8. Cytunodd y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Ardal Saundersfoot, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Amroth a Saundersfoot

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw wardiau un aelod a ddymunir

6.9. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd mai'r sillafiad Saesneg a argymhellir, sef Crymych and Mynachlog-ddu, a roddir i ward etholiadol arfaethedig Crymych a Mynachlog-ddu, fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.

6.10. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y rhoddir yr enw Cymraeg a argymhellir, sef Trefdraeth a Dinas, a'r enw Saesneg Newport and Dinas, i ward etholiadol arfaethedig Trefdraeth gyda Dinas, fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.

6.11. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y rhoddir yr enw Cymraeg a argymhellir, sef Doc Penfro: Bufferland, a'r enw Saesneg Pembroke Dock: Bufferland, i ward etholiadol arfaethedig Doc Penfro: Dwyrain Pennar, fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.

6.12. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y rhoddir yr enw Cymraeg a argymhellir, sef Doc Penfro: Pennar, a'r enw Saesneg Pembroke Dock: Pennar, i ward etholiadol arfaethedig Doc Penfro: Gorllewin Pennar, fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.

- 6.13. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y rhoddir yr enw Cymraeg a argymhellir, sef Rudbaxton a Spital, a'r enw Saesneg Rudbaxton and Spittal, i ward etholiadol arfaethedig Rudbaxton, fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.
- 6.14. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y rhoddir yr enw Cymraeg a argymhellir, sef Amroth a Gogledd Saundersfoot, a'r enw Saesneg Amroth and Saundersfoot North, i ward etholiadol arfaethedig Gogledd Saundersfoot gydag Amroth, fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.
- 6.15. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y rhoddir yr enw sengl a argymhellir, sef Bro Gwaun, i ward etholiadol arfaethedig Scleddau a Chas-mael, fel y cynigiwyd gan y Cyngor Sir.

7. Arolwg Etholiadol Rhondda Cynon Taf – Adroddiad Drafft

- 7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 25 Mawrth 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 7.2. Cytunwyd ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

8. Arolwg Etholiadol Conwy – Adroddiad Terfynol

- 8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Mawrth 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 8.2. Ystyriodd y Comisiwn yr enwau a argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 8.3. Cytunwyd ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

9. Arolwg Etholiadol Sir Ddinbych – Adroddiad Terfynol

- 9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Mawrth 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 9.2. Ystyriodd y Comisiwn yr enwau a argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 9.3. Cytunwyd ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

10. Cynllun Gweithredol

- 10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Mawrth 2019 gan y Rheolwr Cyllid.
- 10.2. **Cytunwyd** y bydd y Cynllun Gweithredol yn cael ei gwblhau gan y Prif Weithredwr, yn amodol ar dderbyn llythyr cylch gwaith newydd gan Lywodraeth Cymru.

11. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

- 11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Mawrth 2019 gan y Rheolwr Cyllid.
- 11.2. **Cytunodd** y Comisiwn y dylid ychwanegu risg newydd sy'n dod i'r amlwg, sef CR5, mewn perthynas â phrydlondeb Llywodraeth Cymru wrth benodi Cadeirydd newydd ar gyfer y Comisiwn, at y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- 11.3. Cytunwyd ar yr adroddiad.

12. Adroddiad ar y Gyllideb

- 12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Chwefror 2019 gan y Rheolwr Cyllid. Cytunodd y Comisiwn ar y trosglwyddiad yn ystod y flwyddyn rhwng penawdau gwariant fel y nodir yn yr adroddiad.
- 12.2. Nodwyd yr adroddiad.

13. Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, 25 Chwefror 2019

- 13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Mawrth 2019 a Chofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2019.
- 13.2. Nododd y Comisiwn fod y Pwyllgor wedi ystyried y Gofrestr Risg TGCh newydd am y tro cyntaf, a'i fod hefyd wedi derbyn yr adroddiad diogelwch TGCh cyntaf gan Gymwysterau Cymru.

14. Datganiad Drafft Llywodraethu

- 14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Mawrth 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

14.2. **Cytunwyd** ar y Datganiad Drafft Llywodraethu, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

14.3. **Awdurdodwyd** y Prif Weithredwr i gwblhau'r Datganiad Llywodraethu.

15. Adroddiad Cynnydd y Prosiect Trawsnewid TGCh

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

15.2. Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

16. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

16.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

16.2. Ni chodwyd unrhyw newidiadau i'r risgiau presennol.

16.3. Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

17. Calendr Digwyddiadau

17.1. Nododd y Comisiwn y calendr.

18. Unrhyw Fusnes Arall

18.1. Ystyriodd y Comisiwn ganlyniadau'r ddau fwrdd tendro ar gyfer gwasanaethau cyfrifyddu a chyfieithu.

18.2. Nodwyd y canlyniadau a chytunwyd ar James de Frais a Trosol yn y drefn honno fel y tendrau llwyddiannus.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 30 Ebrill 2019